
Archwilio Cymru
Audit Wales

# Sicrhau bod grantiau datblygu gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mehefin 2020



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Alastair McQuaid, Adam Marshall, Alice Rushby, Daniel King, Emma Woodcock a Rachel Freitag o dan gyfarwyddyd Mike Usher.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ddau endid cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau archwilio ac adrodd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Pan fo hynny'n berthnasol, mae testun y ddogfen hon yn nodi swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru £53 miliwn o gronfeydd datblygu gwledig heb sicrhau y byddai'r grantiau'n rhoi gwerth am arian 4

Argymhellion 8

1 Aeth Llywodraeth Cymru ati i ddyfarnu grantiau heb ddefnyddio cystadleuaeth na ffyrdd eraill o sicrhau gwerth am arian 10

2 Estynnwyd gwahoddiad i gyrff penodol wneud cais i gael arian heb gyfiawnhad cadarn 12

3 Ni wnaeth y modd y cafodd dyfarniadau grant unigol eu rheoli roi digon o ystyriaeth i werth am arian 17

4 Dyfarnwyd arian ychwanegol i brosiectau a oedd eisoes ar waith heb gadarnhau yn gyntaf eu bod yn llwyddiannus 21

5 Nid oedd y trefniadau i oruchwylio'r rhaglen a'r prosiectau'n ddigon cadarn 25

## Atodiadau

1 Dulliau archwilio 31

2 Cyfnodau mynegi diddordeb, prosesau caffael cyhoeddus, a cheisiadau uniongyrchol 32

# Adroddiad cryno

## Dyfarnodd Llywodraeth Cymru £53 miliwn o gronfeydd datblygu gwledig heb sicrhau y byddai'r grantiau'n rhoi gwerth am arian

1 Mae Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (y rhaglen), gwerth £774 miliwn, yn cynnwys tua £522 miliwn o arian Ewropeaidd[1] a £252 miliwn o arian domestig[2]. Mae'r rhaglen yn ceisio hybu datblygu cymunedol a thwf economaidd cryf a chynaliadwy yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n cynorthwyo prosiectau yn y diwydiannau bwyd, ffermio a choedwigaeth i wella cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd.

2 Mae dau dîm ar wahân yn Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru yn rheoli'r cronfeydd ac yn rhoi'r rhaglen ar waith:

- mae'r **'Awdurdod Rheoli'** yn gyfrifol am bennu trywydd a blaenoriaethau'r Rhaglen Datblygu Gwledig o fewn fframwaith Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd;
- mae Is-adran Taliadau Gwledig Cymru, sef yr **'Asiantaeth Taliadau'**, yn gweinyddu'r cronfeydd.

3 Hyd at 31 Awst 2019, dyfarnodd Llywodraeth Cymru grantiau gwerth cyfanswm o £598 miliwn o dan y rhaglen. Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru'n dyfarnu arian grant y Rhaglen Datblygu Gwledig i brosiectau newydd ar ôl cynnal prosesau lle ceir cystadleuaeth agored rhwng yr ymgeiswyr; mae hyn yn helpu i sicrhau mai'r prosiectau gorau sy'n cael yr arian. Fodd bynnag, dyfarnodd Llywodraeth Cymru £68 miliwn drwy 'geisiadau uniongyrchol'. Drwy'r broses hon, estynnodd swyddogion wahoddiad i unigolion neu sefydliadau yr oeddent yn gyfarwydd â nhw wneud cais heb unrhyw gystadleuaeth.


1 Rydym yn rhoi symiau mewn punnoedd drwy'r ddogfen hon, gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid gyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer y bunt / yr ewro lle bo'n briodol.

2 Mae Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) yn darparu arian i gynorthwyo ffermwyr, cefn gwlad a chymunedau gwledig Cymru o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

4 Bu inni adolygu sampl o £59 miliwn a oedd yn cynnwys y mwyaf o’r ceisiadau uniongyrchol hyn i weld a fu i Lywodraeth Cymru, yn absenoldeb cystadleuaeth, roi mesurau amgen priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian. O ran £28 miliwn o’r arian grant a ddyfarnwyd rhwng mis Ionawr 2016 a mis Ionawr 2019, canfuwyd na fu iddi wneud hynny (**Arddangosyn 1**).

5 Fel rheol, byddem o leiaf yn disgwyl i unrhyw benderfyniad gan Lywodraeth Cymru i roi mwy o arian i brosiect sydd eisoes ar waith fod yn seiliedig ar werthusiad o’i lwyddiant, p’run a wnaed y dyfarniad gwreiddiol ar sail cystadleuaeth ai peidio. Hyd yma, drwy raglen 2014-2020, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £62 miliwn o arian ychwanegol i brosiectau a oedd eisoes ar waith. Bu inni brofi £30 miliwn o’r arian hwn, a chanfod na fu i Lywodraeth Cymru roi unrhyw fesurau ar waith i sicrhau bod y dyfarniadau ychwanegol a wnaed rhwng mis Chwefror 2017 a mis Gorffennaf 2018, gwerth cyfanswm o £25 miliwn, yn rhoi gwerth am arian (gweler **Arddangosyn 1**).

**Arddangosyn 1 – bu inni ganfod nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon i sicrhau gwerth am arian o ran £53 miliwn o'r arian a ddyfarnwyd o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig a wiriwyd gennym, sy'n cynrychioli £28 miliwn o geisiadau uniongyrchol a £25 miliwn o ddyfarniadau ychwanegol.**




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

6 Yn gyffredinol, canfuwyd nad oedd agweddau pwysig ar ddyluniad, gweithrediad na goruchwyliaeth mesurau Llywodraeth Cymru i reoli'r rhaglen yn ddigon effeithiol i sicrhau gwerth am arian. Yn benodol, bu i Lywodraeth Cymru:

- fabwysiadu dull o ddyfarnu arian heb gystadleuaeth, heb gyflwyno dulliau amgen o sicrhau gwerth am arian;
- gwahodd cyrff penodol i gyflwyno ceisiadau i gael arian heb gofnodi pam iddi ddethol y cyrff hyn;
- gwneud dyfarniadau grant unigol heb ddangos iddi ystyried gwerth am arian yn ddigonol;
- rhoi arian ychwanegol i brosiectau a oedd eisoes ar waith heb gadarnhau yn gyntaf eu bod yn llwyddiannus;
- peidio â goruchwylio'r rhaglen a'r prosiectau'n ddigonol.

Bu inni ganolbwyntio ar brosesau a rheolaethau Llywodraeth Cymru o ran y grantiau a ddyfarnwyd rhwng mis Ionawr 2016 a mis Ionawr 2019. Ni wnaethom adolygu'r prosiectau a gafodd yr arian. Ceir gwybodaeth am y sampl a brofwyd gennym a'n dulliau archwilio yn **Atodiad 1**.

7 O ystyried y problemau a bennwyd o ran £28 miliwn o'r arian grant a ddyfarnwyd ar sail ceisiadau uniongyrchol (**paragraffau 3 a 4**) ac o ran £25 miliwn o'r dyfarniadau ychwanegol a wnaed (**paragraff 1**), rydym wedi dod i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu £53 miliwn o'r cronfeydd datblygu gwledig heb sicrhau y byddai'r grantiau'n rhoi gwerth am arian rhwng mis Ionawr 2016 a mis Ionawr 2019.

# Argymhellion

## Argymhellion

Yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth lwyr â'r rheoliadau, mae ar Lywodraeth Cymru hefyd angen rheolaethau cadarn i sicrhau bod ei grantiau datblygu gwledig yn cael eu llywodraethu'n dda a'u bod yn rhoi gwerth am arian, yn enwedig pan fydd yn dyfarnu arian heb gystadleuaeth.

Pan fydd yn adolygu ei reolaethau, dylai'r Awdurdod Rheoli ymgysylltu â'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau a thimau eraill sy'n dyfarnu grantiau o fewn Llywodraeth Cymru i gymharu eu profiadau, i rannu gwybodaeth, ac i fabwysiadu arferion da.

Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gwneud yr hyn a ganlyn:

**R1 Gwella'r cynllun dirprwyo**

Dylid gwella cynllun dirprwyo Llywodraeth Cymru er mwyn iddo gynnwys gweithdrefn uwchgyfeirio, ar sail asesiadau o ffactorau risg prosiectau, yn ychwanegol at y trothwyon sy'n bodoli eisoes o ran awdurdodiadau ariannol.

**R2 Cryfhau rheolaethau i sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n briodol**

Os oes rhaid i'r un person wneud penderfyniadau am brosiect, dylai Llywodraeth Cymru roi rheolaethau ffurfiol ar waith er mwyn i reolwr oruchwylio'r sefyllfa, gan adolygu a herio penderfyniadau mewn modd amserol a phriodol.

## Argymhellion

**R3 Cofnodi barn, gweithredoedd a phenderfyniadau**

Mae angen cofnodi'r penderfyniadau a wneir gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny, yn briodol:

- i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r rheolaethau;
- i ddarparu tystiolaeth sy'n dangos bod dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu cyflawni'n briodol;
- i sicrhau bod modd adolygu penderfyniadau yn fewnol ac yn allanol;
- i helpu i warchod swyddogion rhag y risg o gamreoli neu gamymddwyn honedig.

**R4 Dyfarnu arian ychwanegol i brosiectau sydd eisoes ar waith**

Cyn dyfarnu arian ychwanegol i brosiectau sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith gan drydydd parti, dylai Llywodraeth Cymru werthuso'n briodol record gyflawni pob prosiect.

**R5 Cyllidebu ar gyfer prosiectau a roddir ar waith fesul cam**

Os yw prosiectau'n cael eu rhoi ar waith fesul cam neu dros gyfnod o sawl blwyddyn ariannol, dylai Llywodraeth Cymru wella tryloywder ei threfniadau i gyllidebu ar gyfer y prosiectau hyn ac i ragamcanu eu gwariant i sicrhau bod modd bodloni ymrwymiadau ariannu'n haws pan fyddant yn codi, heb beryglu'r camau i gyflawni'r portffolio ehangach.

# Aeth Llywodraeth Cymru ati i ddyfarnu grantiau heb ddefnyddio cystadleuaeth na ffyrdd eraill o sicrhau gwerth am arian

01

1.1 Cynnal cystadleuaeth agored yw'r ffordd arferol o sicrhau mai dim ond y cynigion gorau sy'n cael eu cymeradwyo i'w hariannu. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod y grantiau a ddyfernir yn rhoi gwerth am arian. Os na chynhelir cystadleuaeth, gellir defnyddio rheolaethau amgen fel y rhai a restrir isod i sicrhau bod y grantiau a ddyfernir yn rhoi gwerth am arian:

- defnyddio prosesau effeithiol i ddethol prosiectau a threfniadau cadarn i graffu ar y penderfyniadau hynny;
- pennu amodau grant llymach, gan beri iddi fod yn ofynnol i'r sawl sy'n cael arian grant roi'r prosiect ar waith mewn ffyrdd penodol neu gyflawni amcanion manylach;
- cynyddu gofynion adrodd y sawl sy'n cael arian grant, neu gynyddu gwaith monitro a gwerthuso Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod amodau'r grant yn cael eu bodloni a bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni.

1.2 O fewn Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am bennu trywydd a blaenoriaethau'r Rhaglen Datblygu Gwledig o fewn fframwaith Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd.

1.3 Penderfynodd yr Awdurdod Rheoli ganiatáu dyfarniadau heb gystadleuaeth ar sail ei ddehongliad yntau o Reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd, ond heb iddo ystyried y risg o ran gwerth am arian. Pe bai wedi gwneud hynny, dylai fod wedi mynd ati, ar ôl gwneud ei benderfyniad, i roi fframwaith rheoli ar waith i liniaru'r risg hon. Gallai fod wedi gofyn i adrannau eraill Llywodraeth Cymru am gyngor ynghylch sut i wneud hyn. Fodd bynnag, ni chawsom hyd i unrhyw dystiolaeth a oedd yn dangos iddo gyfathrebu ag unrhyw adrannau eraill sy'n dyfarnu grantiau o fewn Llywodraeth Cymru i bennu arferion gorau.

1.4 Ni chawsom ychwaith hyd i unrhyw dystiolaeth sy'n dangos bod y swyddogion wedi rhoi gwybod i'r Gweinidog perthnasol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ei hun[3]. Dylai'r wybodaeth a ddarperir i'r Gweinidog gynnwys esboniad o'r rhesymau dros wneud y penderfyniad, a dylai hefyd amlinellu goblygiadau'r penderfyniad, gan gynnwys unrhyw risgiau.

3 Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru: https://llyw.cymru/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru yn nodi y dylai Gweinidog gymeradwyo penderfyniadau a allai fod 'yn newydd, yn ddadleuol neu gael sgil-effeithiau'.

# Estynnwyd gwahoddiad i gyrff penodol wneud cais i gael arian heb gyfiawnhad cadarn

02

2.1 Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru'n dyfarnu grantiau'r Rhaglen Datblygu Gwledig i brosiectau unigol ar ôl naill ai:

- hysbysebu cyfnod 'mynegi diddordeb' lle estynnir gwahoddiad i brosiectau posibl gystadlu am gronfa gyfyngedig o arian, cyn cyflwyno cais manwl sy'n destun prosesau arfarnu (gweler **paragraff 3.1**); neu
- gynnal prosesau caffael cyhoeddus agored lle estynnir gwahoddiad i gyflenwyr posibl gyflwyno tendrau cystadleuol ar sail manyleb prosiect.

Mae'r ddwy broses hyn, a ddisgrifir mewn mwy o fanylder yn **Atodiad 2**, yn cynnwys cystadleuaeth agored.

2.2 Fodd bynnag, canfuwyd bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi dyfarnu £68 miliwn o arian grant drwy broses a ddisgrifir ganddi fel 'ceisiadau uniongyrchol'. Roedd y broses hon yn caniatáu i swyddogion estyn gwahoddiad i unigolion neu sefydliadau yr oeddent yn gyfarwydd â nhw wneud cais uniongyrchol i gael arian, heb unrhyw gystadleuaeth (gweler **Atodiad 2** i gael mwy o fanylion). Nid oes unrhyw reswm cyfreithiol na threfniadol pam na allai Llywodraeth Cymru fod wedi defnyddio dull mynegi diddordeb neu brosesau caffael cyhoeddus yn lle hynny.

2.3 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym iddynt ddewis dyfarnu grantiau drwy geisiadau uniongyrchol oherwydd eu bod yn credu eu bod eisoes yn gwybod pwy allai roi'r prosiectau penodol hyn ar waith orau. Bu inni wirio £59 miliwn o'r dyfarniadau hyn (87% o'r cyfanswm) i brofi:

- a oedd modd cyfiawnhau'r rhesymau dros beidio â defnyddio cystadleuaeth ar gyfer pob prosiect;
- a gafodd pob penderfyniad i beidio â defnyddio cystadleuaeth ei adolygu'n briodol;
- sut y bu i'r swyddogion benderfynu pwy i gysylltu ag ef;
- bod gweithdrefn ar waith i uwchgyfeirio penderfyniadau dyfarnu i'w hadolygu gan swyddogion uwch pan na ddefnyddiwyd cystadleuaeth;
- a oedd trefniadau effeithiol ar waith i oruchwylio penderfyniadau dyfarnu'r swyddogion neu i graffu arnynt;
- a oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw beth yn lle cynnal cystadleuaeth i sicrhau gwerth am arian.

2.4 O fewn ein sampl ni o £59 miliwn o’r cronfeydd a ddyfarnwyd, ni ddaethpwyd ar draws unrhyw broblemau o ran £31 miliwn. (Dyfarnwyd rhyw £24 miliwn o’r arian hwn gan Lywodraeth Cymru i gyrff cyfryngol a oedd yn dyfarnu grantiau ar ei rhan. Aeth y cyrff hyn ati, yn eu tro, i ddefnyddio cystadleuaeth pan oeddent yn dethol prosiectau i’w cefnogi.) Fodd bynnag, nid oedd modd i Lywodraeth Cymru ddarparu unrhyw dystiolaeth inni i ddangos ei bod wedi cymryd y camau uchod (gweler **paragraff 2.3**) i sicrhau bod y £28 miliwn sy’n weddill yn rhoi gwerth am arian[4].

2.5 Canfuwyd un enghraifft lle bu i Lywodraeth Cymru hysbysebu prosiect posibl gwerth £0.5 miliwn, cyn mynd ati i wneud dyfarniad cychwynnol o £21 miliwn yn y pen draw (gweler **Astudiaeth achos 1**).

4 Mae’n gyfwerth â 47 y cant o’r sampl a brofwyd gennym a 41 y cant o gyfanswm y ceisiadau uniongyrchol.

**Astudiaeth achos 1: Cafodd gweithgaredd i'w ariannu drwy grant domestig gwerth £0.5 miliwn ei hysbysebu, ond fe ddyfarnwyd £21 miliwn o arian datblygu gwledig i dri ymatebydd yn y pen draw, heb gystadleuaeth bellach**

Mae Prosiect A yn dangos:

- na cheir dogfennaeth ddigonol i gefnogi'r penderfyniad i gysylltu'n uniongyrchol â'r ymgeiswyr posibl;
- na cheir gweithdrefnau digonol i ystyried a allai sefydliadau eraill fod wedi rhoi'r un prosiect ar waith yn fwy darbodus, effeithlon neu effeithiol.

Estynnodd Llywodraeth Cymru wahoddiad uniongyrchol i dri sefydliad wneud cais ar y cyd i gael £21 miliwn o'r Rhaglen, heb ddefnyddio proses gaffael gyhoeddus na phroses mynegi diddordeb;

- postiodd Llywodraeth Cymru hysbysiad tybiannol ar wefan GwerthwchiGymru i fesur y diddordeb posibl mewn rhoi gweithgaredd ac iddo werth dangosol o ddim ond £0.5 miliwn ar waith, wedi'i ariannu drwy grant domestig.
- mynegodd 12 sefydliad ddiddordeb. Graddiodd Llywodraeth Cymru eu cynigion cychwynnol, ond nid oedd modd iddi ddarparu unrhyw dystiolaeth inni i egluro'r sgoriau a roddwyd iddynt.
- gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r tri sefydliad â'r sgoriau uchaf lunio prosiectau y byddai modd iddynt eu rhoi ar waith ar y cyd.
- yna, estynnodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i bob un o'r tri sefydliad wneud cais uniongyrchol i gael arian datblygu gwledig i roi'r prosiect cydweithredol yr oeddent hwy eu hunain wedi'i lunio ar waith.
- bu i Lywodraeth Cymru arfarnu'r ceisiadau hyn, derbyn y prosiect, a dyfarnu grantiau gwerth cyfanswm o £21 miliwn i'r tri ymgeisydd.

**Astudiaeth achos 1: Cafodd gweithgaredd i'w ariannu drwy grant domestig gwerth £0.5 miliwn ei hysbysebu, ond fe ddyfarnwyd £21 miliwn o arian datblygu gwledig i dri ymatebydd yn y pen draw, heb gystadleuaeth bellach**

Nid oedd yr hysbysiad tybiannol cychwynnol ar gyfer grant domestig gwerth £0.5 miliwn yn ddadansoddiad effeithiol o'r gystadleuaeth yn y farchnad i roi prosiect datblygu gwledig cydweithredol gwerth £21 miliwn ar waith. Felly, nid oedd yn effeithiol fel dadansoddiad o'r farchnad bosibl o ymgeiswyr nac fel tystiolaeth o broses gaffael agored a theg.

Ni chynhaliwyd unrhyw broses gystadleuol ychwanegol ar gyfer y prosiect terfynol, er bod ei faint a'i werth yn wahanol iawn i'r hyn a hysbysebwyd yn yr hysbysiad tybiannol gwreiddiol.

# Ni wnaeth y modd y cafodd dyfarniadau grant unigol eu rheoli roi digon o ystyriaeth i werth am arian

03

3.1 O ran pob cais i gael grant o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddangos pam fod angen yr arian a sut y maent wedi cyfrifo'r costau y maent yn bwriadu mynd iddynt. Yna, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn yr Uned Rheoli Cynlluniau[5] yn asesu'r wybodaeth hon gan ddefnyddio proses arfarnu dri cham. Dyma'r camau:

- asesu risg;
- gwirio cymhwysedd;
- arfarnu'r meini prawf dethol.

3.1 Defnyddir y prosesau hyn ar gyfer pob cais, p'run a yw'n deillio o broses mynegi diddordeb neu o gais uniongyrchol. Mae timau o fewn Llywodraeth Cymru a chanddynt arbenigedd penodol o ran cyllid, polisi, a materion technegol hefyd yn cyfrannu at y camau asesu risg ac arfarnu meini prawf dethol.

3.1 Pan fyddant yn arfarnu'r meini prawf dethol, mae'n ofynnol i'r swyddogion sgorio ceisiadau ar sail naw maen prawf. Er mwyn i gais fod yn llwyddiannus, rhaid iddo gael sgôr 'canolig' neu 'uchel' ar gyfer pob un o'r naw maen prawf. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys gwerth am arian. Fodd bynnag, nid oedd yr Uned Rheoli Cynlluniau wedi rhoi cyfarwyddiadau i swyddogion ynghylch asesu pob un o'r tair agwedd ar werth am arian: darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn hytrach, canfuwyd nad oedd y rhestr wirio a ddefnyddiwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru i arfarnu ond yn canolbwyntio ar gost.

3.1 Canfuwyd bod yr arfarniadau o'r modd y bydd prosiectau'n sicrhau gwerth am arian yn wan oherwydd na fu i'r swyddogion:

- wirio cywirdeb yr wybodaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr;
- craffu i weld a oedd y costau a'r gweithgareddau a gynigiwyd gan ymgeiswyr yn sicrhau gwerth am arian; na
- chofnodi tystiolaeth mewn ffordd briodol i gefnogi eu barn bod y costau arfaethedig yn rhesymol.

5 Pan gafodd y prosiectau a adolygwyd gennym eu cymeradwyo, roedd yr Uned Rheoli Cynlluniau'n rhan o'r 'Awdurdod Rheoli'. Erbyn hyn, mae'n rhan o'r 'Asiantaeth Taliadau'. Mae'r ddwy gangen hyn yn rhan o Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru (gweler **paragraffau 2 a 5.1 i 5.9**).

3.1 O ariannu prosiect mawr, cymhleth neu hir fesul cam, gall roi rhywfaint o reolaeth dros werth am arian, a hynny oherwydd bod modd canslo neu ddiwygio prosiect nad yw'n cyflawni ei ganlyniadau disgwyliedig yn ystod y cam neu'r camau cychwynnol cyn darparu mwy o arian ar gyfer camau diweddarach.

3.1 O rannu prosiect yn gamau, bydd yn aml yn galw am ymrwymiadau ariannol sy'n para tu hwnt i gyfnod y gyllideb pan wnaed y penderfyniad gwreiddiol i'w ariannu. Fodd bynnag, os na chaiff arian i gwblhau prosiect ei glustnodi mewn cyllidebau dilynol, mae perygl na fydd arian ar gael pan fydd ei angen, ac mae'n bosibl na chaiff prosiect a fyddai fel arall yn llwyddiannus ei gwblhau, ac y caiff yr arian a wariwyd ar y cam cychwynnol ei wastraffu. Mae'r ffaith bod y Rhaglen Datblygu Gwledig yn seiliedig ar alw yn cymhlethu'r sefyllfa, gan beri iddi fod yn fwy o her rhagamcanu'r gofynion ariannu yn y dyfodol.

3.1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau gan roi sylw dyledus i'w heffaith yn y dyfodol, yn ogystal â'u gwerth am arian yn y presennol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru'n cyllidebu i ariannu camau diweddarach prosiect a roddir ar waith fesul cam. Nid yw'r dyfarniad cychwynnol ond yn ystyried y cam cychwynnol neu'r cam peilot, ac nid oes system ar waith i glustnodi arian ar gyfer prosiect mewn blynyddoedd i ddod. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau arian ar gyfer prosiectau ym mhob cyllideb flynyddol pan fydd yr angen yn codi.

3.1 Canfuwyd enghreifftiau o brosiectau lle'r oedd angen symiau sylweddol o arian ar gyfer yr ail gam. Oherwydd na chafodd yr arian hwn ei glustnodi o'r dechrau'n deg ac nad oedd ar gael o fewn y Rhaglen Datblygu Gwledig pan oedd ei angen, bu'n rhaid ceisio arian o gyllidebau eraill Llywodraeth Cymru i gwblhau'r prosiectau, a hynny o bosibl ar draul gweithgareddau eraill (gweler **Astudiaeth achos 2)**.

3.1 Oherwydd y dull adweithiol hwn o ddyrannu'r gyllideb, mae Llywodraeth Cymru yn agored i'r risg y gallai prosiectau sydd, fel arall, yn llwyddiannus gael eu canslo oherwydd nad oes arian ar gael. Ar lefel rhaglen ac ar lefel prosiectau, mae angen i Lywodraeth Cymru allu dangos bod ystyriaeth benodol wedi'i rhoi i werth am arian ac i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Astudiaeth achos 2: Prosiect B: goblygiadau ariannol rhoi prosiect ar waith fesul cam

**Mae Prosiect B yn dangos:**

**ei bod yn bosibl na chaiff buddion sy'n dibynnu ar gyflawni holl gamau prosiect eu gwireddu oherwydd cyllidebu tymor byr sy'n pennu arian ar gyfer y camau cychwynnol yn unig.**

- **ar ôl y cam cychwynnol, os nad yw'r prosiect cyfan yn cael ei gwblhau ac os nad yw'r canlyniadau'n cael eu cyflawni, efallai nad yw'r arian a ddyfarnwyd ar gyfer y cam cyntaf yn rhoi gwerth am arian.**

**Roedd cais Prosiect B i gael arian yn amlinellu'r bwriad i gynnal ail gam ar ôl cwblhau'r prosiect cychwynnol, gan nodi y byddai angen tua £10 miliwn o arian pellach i wneud hynny.**

**Fodd bynnag, pan gyflwynodd Prosiect B ei gais ailwerthuso i gael arian ar gyfer yr ail gam, nid oedd £10 miliwn wedi'i glustnodi nac ar gael yn rhwydd yng nghyllideb tîm cyllid y rhaglen ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.**

**I gael hyd i'r £10 miliwn gofynnol, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ailddyrannu arian o gyllidebau eraill, gan greu cost cyfle yn ôl pob tebyg ar gyfer blaenoriaethau eraill y Gweinidog.**

**Pe bai'r cam cyntaf yn llwyddiannus, roedd risg sylweddol na fyddai Llywodraeth Cymru wedi gallu cael hyd i arian i ariannu ail gam Prosiect B, a byddai hyn wedi peryglu gwerth yr arian a ddarparwyd eisoes ar gyfer y cam cyntaf.**

# Dyfarnwyd arian ychwanegol i brosiectau a oedd eisoes ar waith heb gadarnhau yn gyntaf eu bod yn llwyddiannus

04

4.1 Gellir dyfarnu arian ychwanegol i brosiectau sydd eisoes ar waith oherwydd eu bod yn cael eu rhoi ar waith fesul cam (gweler **paragraffau 3.5 i 3.9 hefyd**), neu oherwydd eu bod yn cael eu hailwerthuso. Caiff prosiect ei ailwerthuso oherwydd bod ei gwmpas neu ei gostau'n newid. Dylid ymdrin â newidiadau sylweddol fel prosiect newydd. Hyd yma, cafodd £62 miliwn o arian ychwanegol ei ddyfarnu i brosiectau sydd eisoes ar waith yn rhaglen 2014-20.

4.2 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n monitro cynnydd drwy gydol oes prosiect yn y ffyrdd a ganlyn:

- drwy adroddiadau gan rai sy'n cael grant sy'n dangos y cynnydd a wnaed o'i gymharu â'r gwariant rhagamcanol a'r dangosyddion perfformiad;
- drwy adroddiadau annibynnol sy'n gwerthuso a gafodd amcanion prosiect eu cwblhau ac a gafodd canlyniadau ehangach eu gwireddu.

Fodd bynnag, canfuwyd nad yw swyddogion yn adolygu'r adroddiadau hyn pan fyddant yn penderfynu a ddylid cymeradwyo estyn neu ailwerthuso prosiect.

4.3 Profwyd £30 miliwn o ddyfarniadau ychwanegol (48% o'r cyfanswm) i weld a wnaed unrhyw wiriadau amgen i fesur llwyddiant prosiectau. Bu inni ganolbwyntio ar y dyfarniadau hynny lle cafwyd naill ai:

- newid i werth dyfarniad mawr; a/neu
- newid canrannol sylweddol i'r dyfarniad gwreiddiol. .

4.4 O ran £25 miliwn (83%) o'r £30 miliwn a brofwyd, canfuwyd na allai Llywodraeth Cymru ddarparu unrhyw dystiolaeth i ddangos ei bod wedi ystyried llwyddiant prosiectau hyd yma nac wedi cymryd unrhyw gamau eraill i sicrhau gwerth am arian pan oedd yn dyfarnu arian ychwanegol (gweler **Astudiaeth achos 3**). Canfuwyd hefyd fod £4 miliwn o arian ychwanegol wedi'i roi i brosiectau lle nad oedd y dyfarniadau cychwynnol yn destun cystadleuaeth a heb gymryd unrhyw gamau eraill i sicrhau bod yr arian ychwanegol yn rhoi gwerth am arian (gweler **paragraffau 2.1 i 2.4**).

4.5 Roeddem yn fodlon bod mesurau priodol ar waith i sicrhau y byddai gweddill y sampl a brofwyd gennym, tua £5 miliwn, yn rhoi gwerth am arian.

**Astudiaeth achos 3: Prosiect C: estyn prosiect**

**Mae Prosiect C yn dangos:**

- **na chafodd llwyddiant y prosiect hyd yma ei werthuso'n ddigonol cyn dyfarnu arian ychwanegol iddo;**
- **bod y cofnodion am y farn y daethpwyd iddi i gefnogi'r penderfyniad i ddyfarnu arian yn y dyfodol yn wael.**

**Cafodd Prosiect C arian i roi cam cyntaf prosiect fesul cam ar waith (£700,000). Yn ddiweddarach, cyflwynodd Prosiect C ailwerthusiad o'r prosiect i gynyddu'r dyfarniad hwn i dalu'r costau staff ychwanegol (£920,000) y byddai'n mynd iddynt i baratoi ar gyfer yr ail gam. Fodd bynnag, nid oedd yr arian ar gyfer yr ail gam wedi'i warantu.**

**Cytunodd y swyddogion i gynyddu dyfarniad y cam cyntaf:**

- **heb werthuso'r modd y rhoddwyd cam cyntaf y prosiect ar waith hyd y pwynt hwnnw;**
- **heb gydnabod bod gwerth am arian y swm ychwanegol yn dibynnu ar gymeradwyo cais ar wahân i gael £13 miliwn i ariannu'r ail gam. [Sylwch: cymeradwywyd arian yr ail gam yn ddiweddarach.]**

4.6 Gall y sawl sy'n cael grant gael arian ar gyfer mwy nag un prosiect yn olynol neu ar yr un pryd. Fodd bynnag, pan fydd yn ystyried ceisiadau i gael arian, nid yw Llywodraeth Cymru'n gwirio a yw prosiectau eraill yr ymgeisydd, boed y rheini wedi'u cwblhau neu ar waith, yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus neu wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus.

4.7 Yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru i swyddogion sy'n dyfarnu cronfeydd datblygu gwledig, mae'n ofynnol iddynt wirio a geir unrhyw wybodaeth am yr ymgeisydd yn y Ganolfan Diwydrwydd Dyladwy a gynhelir gan Ganolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru. Fel rheol, bydd gwybodaeth o'r fath yn cynnwys:

- y cronfeydd datblygu gwledig a ddyfarnwyd iddo o'r blaen;
- unrhyw grantiau eraill a ddyfarnwyd iddo gan Lywodraeth Cymru;
- gwybodaeth ariannol am yr unigolyn neu'r cwmni.

Fodd bynnag, ni chawsom hyd i fawr ddim tystiolaeth a oedd yn dangos bod y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau a'r timau datblygu gwledig sy'n gyfrifol am ddyfarnu arian grant wedi cyfnewid gwybodaeth.

# Nid oedd y trefniadau i oruchwylio'r rhaglen a'r prosiectau'n ddigon cadarn

05

5.1 O ran y cynlluniau a adolygwyd gennym, mae'r Uned Rheoli Cynlluniau (gweler **Arddangosyn 3** i weld y strwythur) yn rheoli'r materion a ganlyn:

- arfarnu a chymeradwyo prosiectau;
- prosesu hawliadau;
- gwirio a monitro;
- ailwerthuso prosiectau.

**Arddangosyn 3 – strwythur yr Awdurdod Rheoli a'r Uned Rheoli Cynlluniau**

**Awdurdod Rheoli**

↓

**2 x Penaethiaid yr Uned Rheoli Cynlluniau**[1]

1 Rheolwr Blaenoriaethau hefyd

↓

**Timau Prosiectau**

- Tîm arfarnu ariannol
- Tîm gweithredu'r cynllun

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

5.2 Drwy ein hadolygiad o'r arian a ddyfarnwyd, pennwyd y gwendidau rheoli a ganlyn yn yr Uned Rheoli Cynlluniau:

- ni cheir system annibynnol i adolygu penderfyniadau;
- nid yw dyletswyddau wedi'u gwahanu'n dda;
- ni cheir unrhyw ddogfennaeth, neu fawr ddim, i ategu penderfyniadau.

5.3 Yn ystod 2019, dechreuodd Pennaeth newydd Uned Rheoli Cynlluniau yn ei swydd ac mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati'n ddiweddar i sefydlu panel buddsoddi annibynnol i adolygu'r arian a ddyfernir i bob prosiect gwerth mwy na £100,000.

5.4 Fodd bynnag, pan wnaed y dyfarniadau a adolygwyd gennym, nid oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw system annibynnol i adolygu ceisiadau i gael arian datblygu gwledig. Bryd hynny, roedd gan swyddogion unigol yr Uned Rheoli Cynlluniau ddisgresiwn eang i ddyfarnu symiau sylweddol, heb lawer o oruchwyliaeth o'u penderfyniadau, hyd yn oed os oeddent yn tybio bod risg ynghlwm wrth brosiect.

5.5 Yn yr Uned Rheoli Cynlluniau, estynnodd y Rheolwr Blaenoriaethau wahoddiad i sefydliadau penodol wneud cais i gael arian, ac roedd hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo eu ceisiadau. Ni welsom unrhyw dystiolaeth a oedd yn dangos bod rheolwyr wedi adolygu na goruchwylio'r penderfyniadau hyn (gweler **Astudiaeth achos 4**).[6]

6 Yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol am Reoli Effaith Brexit ar y Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018, pennwyd bod angen cryfhau trefniadau goruchwylio a rheoli risg y Rhaglen Datblygu Gwledig gyffredinol (tudalennau 24-28). www.audit.wales/publication/managing-impact-brexit-rural-development-programme-wales

## Astudiaeth achos 4: Prosiect D: rhan y swyddogion

**Mae Prosiect D yn dangos:**

- **nad oedd rheolaethau digonol ar waith i reoli rhan swyddogion Llywodraeth Cymru yn y broses o lunio prosiectau;**
- **na chafodd penderfyniadau'r swyddogion i gysylltu ag ymgeiswyr posibl eu goruchwylio na'u hadolygu;**
- **nad oedd rheolaethau ar waith i sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n effeithiol mewn achosion lle'r oedd un o swyddogion yr Uned yn rhan o'r broses o lunio prosiect a'r broses o benderfynu a ddylid ariannu'r prosiect hwnnw.**

**Bu i un o swyddogion yr Uned Rheoli Cynlluniau gysylltu â sefydliad i drafod prosiect arfaethedig i roi cysyniad gwyddonol llwyddiannus ar waith mewn sector gwahanol. Byddai'r sefydliad yn cael arian datblygu gwledig i wneud hynny. Ni chafodd penderfyniad y swyddog i gysylltu â'r sefydliad ei adolygu o gwbl.**

**Aeth y sefydliad ati i ddatblygu'r prosiect arfaethedig ymhellach, gyda chymorth a mewnbwn technegol gan y swyddog. Pan oedd y cynnig yn barod, estynnodd y swyddog wahoddiad i'r sefydliad gyflwyno cais uniongyrchol i gael arian. Yna, cymeradwyodd yr un swyddog y cais. Roedd y swyddog hwnnw wedi chwarae rhan uniongyrchol ym mhob cam o'r prosesau ymgeisio a gwerthuso ond ni chawsom hyd i unrhyw dystiolaeth a oedd yn dangos bod y penderfyniad a wnaed ganddo yn y pen draw i gymeradwyo'r arian wedi'i oruchwylio na'i adolygu.**

5.6 Daethom ar draws nifer o brosiectau lle bu i'r un swyddogion chwarae rhan uniongyrchol drwy wahanol gamau'r prosiectau heb i'w penderfyniadau gael eu hadolygu na'u herio:

- llunio;
- gwahodd;
- arfarnu;
- cymeradwyo.

5.7 Canfuwyd hefyd fod y swyddogion a oedd yn rhan o'r broses o wahodd prosiect i wneud cais a chymeradwyo'r cais hwnnw yn ymwneud yn agos â noddwyr y prosiect. O ran arfer da, dylid rhoi fframwaith rheoli priodol ar waith ar gyfer gwahanol gamau'r prosiect. Dylai'r fframwaith rheoli sicrhau naill ai:

- bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu i sicrhau bod swyddogion gwahanol yn gyfrifol am gamau gwahanol; neu
- bod swyddogion sy'n ymwneud â rheoli mwy nag un cam yn cael eu goruchwylio'n ofalus, a bod rheolwyr yn adolygu eu penderfyniadau.

5.8 Drwy ein hadolygiad, canfuwyd gwendidau sylweddol o ran cadw cofnodion:

- ychydig iawn o ddogfennaeth sy'n nodi'r sail resymegol dros gysylltu ag unigolion penodol (gweler **paragraffau 2.3 i 2.4**);
- dogfennaeth wael o ran arfarnu prosiectau, gan gynnwys ystyried sut y bydd pob prosiect yn sicrhau gwerth am arian (**paragraff 3.4**);
- dim asesiad cofnodedig o hynt y camau i roi prosiect ar waith cyn darparu arian ychwanegol (**paragraff 4.4**);
- dim dogfennaeth i gyfiawnhau penderfyniadau pwysig i wyro oddi wrth brosesau caffael / dethol cystadleuol (**paragraffau 1.3 i 1.4**).

5.9 O gadw cofnodion da, mae'n hwyluso prosesau llywodraethu a rheoli risg da, ac yn cynorthwyo adolygiadau mewnol ac allanol. O ran £53 miliwn o'r arian a archwiliwyd gennym, oherwydd na cheir rheolaethau effeithiol na dogfennaeth ddigonol, nid oes modd inni roi sicrwydd i'r cyhoedd y bydd penderfyniadau ariannu Llywodraeth Cymru'n rhoi gwerth am arian.

# Atodiadau

1 Dulliau archwilio

2 Cyfnodau mynegi diddordeb, prosesau caffael cyhoeddus, a cheisiadau uniongyrchol

# 1 Dulliau archwilio

Yn sgil gwaith archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru o ran cyfrif Cronfeydd Amaethyddol Llywodraeth Cymru, ynghyd â gwaith blaenorol o ran rheolaeth gyffredinol y Rhaglen Datblygu Gwledig, roedd pryderon sylweddol wedi dod i'r amlwg o ran y modd yr oedd Llywodraeth Cymru'n rheoli arian Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, yn enwedig o ran bodloni'r gofynion cystadleuaeth.

Felly, penderfynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ymchwilio i'r camau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod modd iddi ddangos bod yr arian Ewropeaidd a ddyfarnwyd ganddi, ynghyd ag arian cyfatebol o'i chyllidebau ei hun, yn rhoi gwerth am arian.

Aethom ati i gynnal profion manwl o sampl o'r arian a ddyfarnwyd o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig yn sgil ceisiadau uniongyrchol (£59 miliwn) ac yn sgil estyn prosiectau (£30 miliwn) rhwng mis Ionawr 2016 a mis Ionawr 2019. Roedd ein sampl yn cynnwys ymgeiswyr a gafodd arian sylweddol a phrosiectau mawr. Fodd bynnag, nid aethom ati i adolygu'n uniongyrchol y camau a gymerwyd i roi prosiectau unigol ar waith na'r camau a gymerwyd gan rai a gafodd arian grant. Yn hytrach, bu ein gwaith archwilio'n canolbwyntio ar y modd y bu i Lywodraeth Cymru lunio a gweithredu ei fframwaith rheoli gwerth am arian. Felly, nid ydym wedi enwi'r prosiectau a gafodd arian yn yr adroddiad hwn.

Yn ogystal â chyflawni gwiriadau archwilio a phrofi prosesau a rheolaethau, aethom ati i adolygu dogfennau, i ddadansoddi data, ac i gyf-weld swyddogion Llywodraeth Cymru. Buom hefyd yn cyd-drafod â'n cydweithwyr yn is-adran Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru i osgoi dyblygu eu rhaglen waith. Bu tîm yr astudiaeth yn cydweithio'n agos â'u cydweithwyr archwilio ariannol yn Swyddfa Archwilio Cymru o ran darpariaethau, rhwymedigaethau digwyddiadol, triniaethau archwilio, datgeliadau naratif, a rheoleidd-dra taliadau sy'n berthnasol i'n barn archwilio o ran cyfrifon adnoddau Llywodraeth Cymru a chyfrifon cronfeydd amaethyddol Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, buom yn gwirio bod ein prif ganfyddiadau'n ffeithiol gywir gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, gan roi hawl iddynt ymateb.

# 2 Cyfnodau mynegi diddordeb, prosesau caffael cyhoeddus, a cheisiadau uniongyrchol

**Nid yw pob dull o wahodd prosiectau arfaethedig yn cynnwys proses gystadleuol**

Gall Llywodraeth Cymru wahodd prosiectau arfaethedig drwy dri dull, sef:

1. Proses mynegi diddordeb ac ymgeisio;
2. Proses gaffael gyhoeddus;
3. Ceisiadau uniongyrchol.

**1 Proses mynegi diddordeb ac ymgeisio**

Bydd Llywodraeth Cymru'n lansio cyfnod mynegi diddordeb ar gyfer cynllun neu grŵp o gynlluniau ac yn gwahodd prosiectau arfaethedig. Bydd cyllideb benodedig ar gael ar gyfer y cyfnod, a bydd hyn yn cyfyngu ar nifer y prosiectau y gellir eu cynorthwyo.

Ar ôl i'r cynigion ddod i law, cânt eu hasesu a'u sgorio ar sail meini prawf y cynllun. Caiff y cynigion eu trefnu yn ôl y sgoriau hyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n pennu trothwy sy'n seiliedig ar y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y cyfnod dan sylw. Bydd yn estyn gwahoddiad i'r prosiectau sydd wedi sgorio mwy na'r trothwy gamu ymlaen i'r cam nesaf, a bydd yn gwrthod y prosiectau sydd islaw'r trothwy. Bydd yn gofyn i'r prosiectau sy'n camu ymlaen i'r cam nesaf gyflwyno cais llawn.

Drwy drefnu prosiectau yn ôl eu sgoriau o fewn y cyfnod perthnasol, mae'n dangos bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried gwerth am arian ar y sail ei bod yn broses gystadleuol. Mae'r prosiectau â'r sgoriau uchaf yn fwy tebygol o ddangos bod iddynt botensial i sicrhau gwerth am arian, ac maent yn camu ymlaen. Mae'r prosiectau â llai o botensial i sicrhau gwerth am arian yn cael sgôr is ac yn cael eu gwrthod.

## 2 Proses gaffael gyhoeddus

Os yw Llywodraeth Cymru'n gwybod yn union pa fath o brosiect yr hoffai iddo gael ei roi ar waith, bydd yn defnyddio proses gaffael gyhoeddus i gael hyd i gyflenwr. Bydd yn galw am dendrau drwy gyhoeddi hysbyseb ar wefan GwerthwchiGymru, a bydd tîm caffael mewnol Llywodraeth Cymru'n goruchwylio'r broses gaffael.

Gan gyd-drafod â'r tîm caffael, caiff pob tendr ei asesu ar sail meini prawf arfarnu penodedig, a dyfernir y contract i'r tendrwr â'r sgôr uchaf.

## 3 Ceisiadau uniongyrchol

Mewn rhai achosion, mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd partïon i hepgor y cam mynegi diddordeb a mynd ati i gyflwyno ceisiadau uniongyrchol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, ni chaiff y ceisiadau eu hasesu'n gystadleuol oherwydd na chânt eu hystyried fel rhan o gyfnod mynegi diddordeb.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

www.archwilio.cymru